# Uned 17: Deall y Trydydd Sector

## Canllawiau cyflwyno

Mae’r uned hon yn edrych ar sut mae’r trydydd sector wedi dod i fodolaeth, a sut mae wedi cael ei ddatblygu.

Nod yr uned hon yw darparu gwerthfawrogiad o’r datblygiadau a’r newidiadau yn y trydydd sector a’r cynnydd yn y galw am y gwasanaethau mae’r sector yn eu cynnig. Bydd yr uned hefyd yn rhoi cyfle i’r dysgwyr edrych yn fanwl ar y gefnogaeth mae’r trydydd sector yn ei darparu, ac ystyried pwysigrwydd a manteision y trydydd sector i’r gwasanaethau amddiffyn.

Bydd y dysgwyr hefyd yn dysgu sut mae gwneud gwaith ymchwil ac ymchwilio i’r gwahanol fathau o weithgareddau gwirfoddol sydd ar gael yn y trydydd sector.

Mae’r uned yn gyfuniad o ymchwil ar sail theori a phrofiad ymarferol personol, ac unwaith bydd y dysgwyr wedi ymchwilio i’r cyfleoedd sydd ar gael, bydd gofyn eu bod yn cyfranogi mewn gwaith gwirfoddol neu weithgareddau mewn maes o’ch dewis. Gallai hynny olygu cymryd rhan mewn digwyddiad untro i elusen neu gyflawni gweithgaredd gwirfoddol am gyfnod o amser.

Gellir cyflwyno’r uned hon trwy ymchwil gan y dysgwyr, ymchwiliadau a gweithgareddau gwirfoddol ymarferol. Byddwch yn gallu defnyddio siaradwyr gwadd, ymweliadau a gwaith ymchwil.

### Mynd i’r afael â’r uned

Gallwch gyflwyno’r uned hon gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau, er enghraifft defnyddio theori i gyflwyno’r dysgwyr i’r topigau sy’n rhan o gynnwys yr uned, siaradwyr gwadd o blith y rhai sy’n ymwneud â gweithgareddau gwirfoddol, ac ymweliadau â sefydliadau gwirfoddol. Dylai’r dysgwyr wneud gwaith ymchwil annibynnol ar y gwahanol gyrff trydydd sector.

Dylech roi cyflwyniad ar yr hyn mae’r trydydd sector yn ei wneud, gan y bydd rhai dysgwyr o bosibl yn edrych ar beth yw’r trydydd sector am y tro cyntaf.

**Nod dysgu A: Ymchwilio i ddatblygiad y trydydd sector a’r gefnogaeth mae’n ei rhoi i’r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol**

Ar gyfer Nod dysgu A, bydd angen i’r dysgwyr ymchwilio i sut datblygwyd y trydydd sector a pha gefnogaeth mae’n ei rhoi i’r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. Mae hynny’n cynnwys ymchwilio i beth yw’r trydydd sector, beth mae’n ei wneud, y datblygiad hanesyddol, a sut mae’r trydydd sector yn gweithio yn y cyfnod modern.

Gallai’r dysgwyr wneud gwaith ymchwil ar sut daeth y trydydd sector i fodolaeth a’i rôl yn y gymdeithas fodern. Gallai hynny gynnwys y mathau o weithgaredd gwirfoddol mae modd eu cyflawni mewn sefydliadau sy’n cefnogi’r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. Gallai’r dysgwyr edrych ar linell amser datblygiad y trydydd sector, gan edrych ar sut a pham y daeth i fodolaeth.

**Nod dysgu B: Gwneud gwaith ymchwil ar bwysigrwydd ac argaeledd y trydydd sector a mathau o weithgaredd gwirfoddol**

Mae Nod dysgu B yn edrych ar pam mae’r trydydd sector yn bwysig. Dylid annog y dysgwyr i edrych ar fanteision y trydydd sector mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan roi rhesymau am y manteision. Anogir y dysgwyr i edrych ar y gwahanol fathau o weithgareddau gwirfoddol sy’n rhan o’r trydydd sector a pham maen nhw mor bwysig i’r gwasanaethau amddiffyn.

O fewn y nod dysgu hwn, dylai’r dysgwyr edrych ar bwysigrwydd gwirfoddoli yn y trydydd sector a manteision posibl hynny i wirfoddolwyr.

### Nod dysgu C: Archwilio cyfleoedd i wirfoddoli a chynllunio ar gyfer gweithgaredd gwirfoddol a chyfranogi ynddo

Mae Nod dysgu C yn ymwneud yn bennaf â chyflawni gweithgaredd gwirfoddoli. Bydd hynny’n golygu bod y dysgwyr yn gwirfoddoli yn y trydydd sector. Bydd angen iddyn nhw edrych ar sgiliau sy’n angenrheidiol ar gyfer gwirfoddoli a nodi cyfleoedd addas i wirfoddoli. Bydd angen iddyn nhw gynllunio’r gweithgaredd maen nhw’n bwriadu ei gyflawni, gan baru eu sgiliau a’u diddordebau â’r cyfle cywir. Bydd y dysgwyr yn gwerthuso’r gweithgaredd, gan amlygu pa mor llwyddiannus oedd y gwaith gwirfoddol mewn perthynas â chefnogi’r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol, a myfyrio ar eu cyfraniad.

Wrth fynd i’r afael â’r uned, bydd angen i’r tiwtoriaid ystyried y cyfleoedd y mae modd eu defnyddio i gynnwys ymarferwyr gweithredol wrth gynllunio, cyflwyno ac asesu’r uned. Er enghraifft:

- Sefydliadau Cadetiaid sydd â Gwisg Swyddogol, e.e. Y Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC), Cadetiaid Môr, Corfflu Cadetiaid y Fyddin, Llu’r Cadetiaid Cyfun (CCF), Cadetiaid Tân, Cadetiaid yr Heddlu
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI)
- Gwasanaeth Achub o Fynyddoedd
- Ambiwlans Sant Ioan
- Y Groes Goch

## Model asesu

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Ymchwilio i ddatblygiad y trydydd sector a’r gefnogaeth mae’n ei rhoi i’r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol | **A1** Diffiniad o’r trydydd sector a’i nodweddion<br>**A2** Datblygiad hanesyddol y trydydd sector<br>**A3** Y trydydd sector yn y gymdeithas fodern | Adroddiad mewn dwy ran:<br>• rhan 1 yn diffinio’r term ‘trydydd sector’ ac yna’n symud ymlaen i werthuso’r datblygiad hanesyddol a’r model gweithredol presennol<br>• rhan 2 yn cynnwys ymchwil ar wahanol gyfleoedd i wirfoddoli mewn cyrff trydydd sector, gan asesu pwysigrwydd a gwerth y gefnogaeth maen nhw’n ei rhoi i unigolion, grwpiau a’r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. |
| **B** Gwneud gwaith ymchwil ar bwysigrwydd ac argaeledd y trydydd sector a mathau o weithgaredd gwirfoddol | **B1** Pwysigrwydd y trydydd sector i’r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol<br>**B2** Gwahanol fathau o weithgaredd gwirfoddol<br>**B3** Pwysigrwydd a gwerth gwirfoddoli mewn cyrff trydydd sector | |
| **C** Archwilio cyfleoedd i wirfoddoli a chynllunio ar gyfer gweithgaredd gwirfoddol a chyfranogi ynddo | **C1** Sgiliau sy’n ofynnol ar gyfer gweithgareddau gwirfoddol<br>**C2** Canfod cyfleoedd addas i wirfoddoli<br>**C3** Ymgymryd â gweithgaredd gwirfoddol | Cyflwyniad amlgyfrwng sy’n adolygu’r gweithgaredd gwirfoddol a gyflawnwyd, gan gynnwys y cynllun a ddefnyddiwyd i ymchwilio i gyfleoedd. |

## Canllawiau asesu

Asesir yr uned hon yn fewnol trwy nifer o dasgau annibynnol. Rhaid i'r dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth unigol y mae modd ei dilysu. Y prif ffynonellau tystiolaeth tebygol fydd adroddiadau, ffotograffau neu logiau fideo i gefnogi cofnodion arsylwi neu ddatganiadau tystion ynghylch y gweithgaredd gwirfoddol a gyflawnwyd.

Ar gyfer Nod dysgu A, mae'r meini prawf asesu yn gofyn bod y dysgwyr yn ystyried yn fanwl ddatblygiad y trydydd sector yn y Deyrnas Unedig, a'i bwysigrwydd. Bydd y dystiolaeth yn dangos gwerthusiad a dadansoddiad o brif gyfnodau datblygiad y trydydd sector, gan gwmpasu ei ymddangosiad yn y 19eg ganrif, yr ehangu cyflym a welwyd ar ddechrau ac yng nghanol yr 20fed ganrif, a'r newid ffocws ddiwedd yr 20fed ganrif a dechrau'r 21ain ganrif. Gallai'r dysgwyr gynhyrchu llinell amser ar hanes y trydydd sector sy'n gwerthuso ac yn dadansoddi ei ddatblygiad a sut mae'r trydydd sector yn cefnogi gwaith y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.

Ar gyfer Nod dysgu B, mae'r meini prawf asesu'n gofyn bod y dysgwyr yn gwneud gwaith ymchwil ar y mathau o weithgaredd gwirfoddol y mae modd ei gyflawni mewn sefydliadau sy'n cefnogi'r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol, gan dynnu ar eu gwybodaeth a gafwyd yn yr uned. Byddan nhw'n gwerthuso ac yn asesu sut mae'r trydydd sector yn cefnogi unigolion, grwpiau a gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol, gan gyfeirio'n glir at waith ymchwil a wnaed ac enghreifftiau.

Gellid cyflawni hyn trwy ymgymryd â gwaith ymchwil a chynhyrchu cyflwyniad ac adroddiad sy'n amlygu pwysigrwydd y trydydd sector a'r gwahanol fathau o waith gwirfoddol sydd ar gael.

Ar gyfer Nodau dysgu A a B, gellid cynhyrchu adroddiad, wedi'i rannu'n ddwy (un rhan ar gyfer y naill a'r llall o'r nodau dysgu).

Ar gyfer Nod dysgu C, bydd y dysgwyr yn cynllunio ac yn ymgymryd â gweithgaredd gwirfoddol. Yna byddan nhw'n gwerthuso eu cyfraniad i'r gweithgaredd gwirfoddol a gyflawnwyd. Dylai'r gwerthusiad edrych ar hunanreolaeth a ble defnyddiwyd menter. Dylai fod yn gytbwys ac amlygu pa mor llwyddiannus oedd y gweithgaredd gwirfoddol o safbwynt cefnogi cyflwyno gwasanaeth amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. Gallai'r dysgwyr gynhyrchu dyddiadur sy'n cynnwys manylion y cynllunio ar gyfer eu gweithgaredd, cofnod o'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni, a gwerthusiad myfyriol o'r gweithgaredd.

Mae Briffiau Aseiniad Awdurdodedig ar gyfer Nodau dysgu A a B a Nod dysgu C ar gael ar ein gwefan.


 © Pearson Education Limited 2022

## Cychwyn arni

**Yma cewch fan cychwyn ar gyfer un dull o gyflwyno'r uned, wedi'i seilio ar y dull asesu a argymhellir yn y fanyleb.**

| **Uned 17: Deall y Trydydd Sector** |
|---|
| **Cyflwyniad**<br>Mae gofyn bod y dysgwyr yn dod i ddeall cefndir y trydydd sector, ei darddiad a'i rôl yn y gymdeithas fodern, y manteision mae'n eu cyflwyno, a rôl gwaith gwirfoddol yn ei brif sefydliadau. |
| **Nod dysgu A: Ymchwilio i ddatblygiad y trydydd sector a'r gefnogaeth mae'n ei rhoi i'r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol** |
| Ar gyfer Nod dysgu A, mae'r addysgu'n canolbwyntio ar dri phrif faes: diffiniad o'r trydydd sector a'i nodweddion, datblygiad hanesyddol y trydydd sector, a'r trydydd sector yn y gymdeithas fodern.<br>Dyma awgrymiadau posibl ar gyfer cyflwyno pob maes:<br>• Diffiniad o'r trydydd sector a'i nodweddion – dylai'r cyflwyno ganolbwyntio ar beth yw'r trydydd sector, yr ystod o sefydliadau, a chanfod nodweddion cyrff trydydd sector. Dylid annog y dysgwyr i wneud gwaith ymchwil annibynnol.<br>• Datblygiad hanesyddol y trydydd sector – dylai'r cyflwyno edrych ar linell amser o ddatblygiad y trydydd sector. Dylai hyn gwmpasu'r dyngarwch cynnar yn y 19eg ganrif, twf sefydliadau elusennol i gefnogi'r gwasanaethau amddiffyn, sut bu i ddatblygiadau o ran y wladwriaeth les a'r GIG ar ôl yr ail ryfel byd newid ffocws y trydydd sector, a sut symudodd datblygiadau yn y 1960au i fath newydd o sefydliad ymgyrchu proffesiynol, sydd ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Eto, dylid annog gwaith ymchwil annibynnol er mwyn i'r dysgwyr archwilio'r datblygiadau hyn.<br>• Y trydydd sector yn y gymdeithas fodern – dylai'r cyflwyno edrych ar sut mae natur y trydydd sector wedi newid yn y gymdeithas fodern i gynnwys ymgyrchu er mwyn cyflawni newid cymdeithasol a darpariaeth gwasanaeth ochr yn ochr â'r gwasanaethau amddiffyn.<br>• Newidiadau i wirfoddoli yn y trydydd sector, gan gynnwys y cynnydd o blith y boblogaeth dros 50 sy'n cyflawni gweithgareddau gwirfoddoli, datblygiad y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (i annog pobl ifanc i wneud gweithgareddau gwirfoddol), a thwf cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. |
| **Nod dysgu B: Gwneud gwaith ymchwil ar bwysigrwydd ac argaeledd y trydydd sector a mathau o weithgaredd gwirfoddol** |
| Ar gyfer y nod dysgu hwn, bydd angen i'r dysgwyr gyflawni gwaith ymchwil ar y gwahanol fathau o weithgareddau gwirfoddol yn y trydydd sector.<br>• Pwysigrwydd y trydydd sector i'r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol – dylai'r cyflwyno edrych ar fanteision y cyrff trydydd sector. Dylai'r gweithgareddau sicrhau bod y dysgwyr yn deall anghenion defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau yn llawn, a sut gall gwasanaethau gefnogi grwpiau anodd eu cyrraedd. Mae angen hefyd iddyn nhw ddeall sut mae'r trydydd sector yn defnyddio arfer arloesol i ddatrys problemau a darparu gwasanaethau perthnasol, yr angen am fwy o staff sydd wedi'u hyfforddi ac â sgiliau, eu rôl yn cynorthwyo pan gyfyd sefyllfaoedd difrifol, yn ogystal â phrosiectau a digwyddiadau cymunedol.<br>• Dylai gweithgareddau, defnydd o astudiaethau achos a siaradwyr gwadd/ymweliadau fel ei gilydd i gyd gefnogi'r dysgwyr i gasglu gwybodaeth a dealltwriaeth ar y topigau hyn. |

- Mae angen hefyd i'r dysgwyr edrych ar wahanol fathau o weithgaredd gwirfoddol. Dylai'r cyflwyno edrych ar amrywiaeth o wahanol gyfleoedd i wirfoddoli mewn cyrff trydydd sector a phwysigrwydd gwirfoddoli i gefnogi eu gweithrediad. Hefyd, ystyriwch sut mae hyn yn sicrhau bod gan y trydydd sector ddigon o arbenigedd, amser, cymorth, capasiti i ymateb mewn sefyllfaoedd brys, yn ogystal â chodi arian, cyflwyno syniadau newydd a'r gallu i gefnogi digwyddiadau cymunedol. Dylid trafod yr effaith ar gostau gweithredu.

  Dylid defnyddio astudiaethau achos gwirfoddolwyr ochr yn ochr â gwaith ymchwil y dysgwr a gweithgareddau trafod. Byddai siaradwr gwadd o gorff trydydd sector allweddol yn arbennig o fuddiol wrth gyflwyno'r nod dysgu hwn, gan y gallen nhw gwmpasu'r topigau uchod ac ymateb i gwestiynau a baratowyd ymlaen llaw gan y dysgwyr, y gellid eu recordio wedyn a'u bwydo i'w hadroddiad (aseiniad terfynol).

**Nod dysgu C: Archwilio cyfleoedd i wirfoddoli a chynllunio ar gyfer gweithgaredd gwirfoddol a chyfranogi ynddo**

Ar gyfer y nod dysgu hwn, bydd y dysgwyr yn edrych ar y sgiliau a geir wrth wirfoddoli, yn canfod cyfleoedd addas i wirfoddoli, ac yn cyflawni gweithgaredd gwirfoddol.

- Sgiliau sydd i'w caffael wrth wirfoddoli – dylai'r cyflwyno ganolbwyntio ar weithio yn y trydydd sector a'r sgiliau gwaith cyffredinol/sgiliau sector-benodol sy'n ofynnol, yn dibynnu ar y sefydliad. Bydd angen i'r dysgwyr feddwl am beth yw'r sgiliau allweddol a sut gallan nhw eu harddangos ar leoliad (sgiliau cyffredinol, sgiliau cyflogadwyedd, sgiliau cyfathrebu, sgiliau penodol/mwy technegol neu benodol i'r rôl).
- Canfod cyfleoedd addas i wirfoddoli – dylai'r cyflwyno helpu'r dysgwyr i ganfod cyfleoedd addas i wirfoddoli. Dylen nhw ystyried yr holl opsiynau a beth maen nhw'n teimlo gallen nhw ei gynnig i'r rôl trwy baru eu sgiliau a'u diddordebau eu hunain â'r sefydliadau eu hunain cyn dod i benderfyniad terfynol. Anogwch y dysgwyr i edrych ar ystod lawn ac arfarnu manteision ac anfanteision pob un cyn dod i benderfyniad terfynol.
- Cyflawni gweithgaredd gwirfoddol – dylai'r cyflwyno gynorthwyo'r dysgwyr i gynllunio'r gweithgaredd gwirfoddol sydd i'w gyflawni a'u tywys trwy'r broses o wneud cais. Dylai'r gweithgareddau droi o gwmpas y dysgwyr yn sicrhau bod ganddynt yr argaeledd a'r sgiliau ar gyfer y rôl wirfoddoli maen nhw'n ei ffafrio, cyn iddyn nhw symud ymlaen i gwblhau cais. Dylen nhw gasglu tystiolaeth ar gyfer eu cyflwyniad ar gyfer yr aseiniad wrth gyflawni eu gweithgaredd gwirfoddol.


Pearson BTEC Cenedlaethol yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol –
Canllaw Cyflwyno – Argraffiad 1 – Mawrth 2022 © Pearson Education Limited 2022

## Manylion y cysylltiadau ag unedau a chymwysterau BTEC eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 1: Dinasyddiaeth ac Amrywiaeth
- Uned 2: Ymddygiad a Disgyblaeth yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol
- Uned 5: Gwaith Tîm, Arweinyddiaeth a Chyfathrebu yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol
- Uned 19: Datblygiad Proffesiynol yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol

## Adnoddau

Yn ogystal â'r adnoddau a restrir isod, mae cyhoeddwyr yn debygol o gynhyrchu gwerslyfrau a gymeradwywyd gan Pearson sy'n cefnogi'r uned hon o'r BTEC Cenedlaethol. Edrychwch ar wefan Pearson (http://qualifications.pearson.com/endorsed-resources) i gael rhagor o wybodaeth wrth i deitlau gael eu cymeradwyo.

### Gwerslyfrau

Ford, L – *The Guardian Guide to Volunteering* (Guardian Newspapers, 2007) ISBN 9780852650677

Hardy, R – *The Virgin Guide to Volunteering: Give Your time and Get Work and Life Experience in Return* (Virgin Books, 2004) ISBN 9780753508572

### Gwefannau

Milwyr wrth gefn y Fyddin: https://www.army.mod.uk/who-we-are/the-army-reserve/

Y Groes Goch Brydeinig: https://www.redcross.org.uk/get-involved/opportunities-for-young-people

Cyngor ar wirfoddoli gan y Llywodraeth: https://www.gov.uk/volunteering

Gwybodaeth am Gwnstabliaid Arbennig: https://www.college.police.uk/career-learning/career-development/role-types/special-constable

Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol: https://www.ncvo.org.uk/

Cadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol (RAF): https://www.raf.mod.uk/aircadets/

Ambiwlans Sant Ioan: https://www.sja.org.uk/get-involved/volunteer-opportunities/

Gwasanaeth Gwirfoddol Dramor: https://www.vsointernational.org/

Volunteering Inspired: https://vinspired.com/

Volunteering Matters: https://volunteeringmatters.org.uk/volunteer-safely/